

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli cyllidebau ar gyfer maes eich cyfrifoldeb, prosiectau penodol neu weithgareddau. Rydych chi'n casglu gwybodaeth a'i gwerthuso i gynllunio cyllidebau, gan ymgysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid yn y broses. Rydych chi'n cynhyrchu cynigion cyllidebol, yn eu cyflwyno i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac yn cytuno ar gyllidebau terfynol. Mae'r safon hefyd yn cynnwys monitro perfformiad cyllidebol, gan gymryd camau cywiro yn ôl yr angen. Rydych yn cynnig diwygiadau ac yn rhoi adroddiadau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys nodi bod angen twyll os oes angen.

Mae'r safon hon ar gyfer pob rheolwr ac arweinydd.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. ymgysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid i roi gwybodaeth sy'n ymwneud â chynllunio a rheoli cyllideb
2. casglu gwybodaeth i gynllunio cyllidebau ar gyfer maes eich cyfrifoldeb, gweithgareddau neu brosiectau
3. nodi dangosyddion perfformiad allweddol sefydliadol (DPA)
4. gwerthuso gwybodaeth i baratoi rhagolygon ar gyfer maes eich cyfrifoldeb, gweithgareddau neu brosiectau
5. paratoi cynigion cyllidebol yn seiliedig ar eich gwerthusiad o'r wybodaeth a gasglwyd
6. cyflwyno eich cyllidebau arfaethedig i'w cymeradwyo gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan nodi'n glir y rhagdybiaethau a wnaed, y risgiau dan sylw a sut caiff y rhain eu rheoli
7. trafod y cyllidebau arfaethedig gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gytuno ar gyllidebau terfynol
8. defnyddio'r cyllidebau y cytunwyd arnynt i fonitro a rheoli perfformiad ar gyfer maes eich cyfrifoldeb, gweithgareddau neu brosiectau
9. nodi achosion unrhyw amrywiadau sylweddol rhwng yr hyn a gyllideb a gynlluniwyd a'r hyn a ddigwyddodd
10. cymryd camau unioni yn ôl yr angen i reoli cyllidebau
11. cael cytundeb i gymryd camau cywiro gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, os oes angen
12. olrhain y cyllidebau mewn ymateb i amrywiadau, datblygiadau sylweddol neu annisgwyl, a chynnig diwygiadau iddynt
13. trafod diwygiadau a chytuno arnynt gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau
14. paratoi adroddiadau ar berfformiad yn erbyn y cyllidebau ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau
15. nodi tystiolaeth o weithgareddau a allai fod yn dwyllodrus ac adrodd amdanynt yn unol â gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol, os oes angen
16. casglu gwybodaeth am sut y rhoddir y gyllideb ar waith er mwyn helpu i baratoi cyllidebau'r dyfodol
17. gwerthuso sut y rheolir eich cyllideb er mwyn nodi ac argymhell gwelliannau
18. dilyn y codau ymarfer a'r polisïau cyfreithiol, sefydliadol, sy'n berthnasol i reoli cyllidebau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

### Gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol

1. dibenion systemau cyllidebol a sut i gynnwys cydweithwyr a rhanddeiliaid wrth reoli cyllidebau
2. ble i gael y wybodaeth sydd ar gael a'i gwerthuso i allu paratoi cyllideb realistig
3. dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) eich sefydliad
4. sut i drafod a chadarnhau cyllideb gyda'r rheini sydd â chyfrifoldeb cyllidebol a'r ffactorau allweddol y dylid eu hystyried
5. sut i ragweld y cyllidebau
6. sut i ddefnyddio cyllideb i fonitro a rheoli perfformiad ar gyfer maes neu weithgaredd gwaith diffiniedig
7. prif achosion amrywiadau cyllidebol, sut i'w hadnabod a'r gwahanol fathau o gamau unioni a allai gael eu cymryd i fynd i'r afael ag amrywiadau a nodwyd
8. sut i olrhain y cyllidebau yn erbyn y meini prawf perfformiad
9. pwysigrwydd cytuno ar ddiwygiadau i'r gyllideb a chyfathrebu'r newidiadau
10. pwysigrwydd rhoi gwybodaeth reolaidd i gydweithwyr am berfformiad yn erbyn y gyllideb
11. y mathau o weithgareddau twyllodrus sy'n gallu ddigwydd, sut i'w hadnabod a chasglu tystiolaeth ategol
12. pwysigrwydd defnyddio sut y rhoddir y gyllideb ar waith i nodi gwybodaeth a gwersi ar gyfer paratoi cyllidebau yn y dyfodol

### Gwybodaeth a dealltwriaeth benodol o'r diwydiant a'r sector

13. y ffactorau, y tueddiadau a'r datblygiadau sy'n debygol o effeithio ar osod cyllidebau yn eich diwydiant a'ch sector

14. y codau ymarfer a'r polisiau cyfreithiol, sefydliadol, sy'n berthnasol i reoli cyllidebau

**Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n ymwneud â chyd-destun penodol**

15. y weledigaeth, yr amcanion a'r cynlluniau gweithredol a'r cyllidebau ar gyfer maes eich cyfrifoldeb

16. y cyfnodau cyllidebu a ddefnyddir yn eich sefydliad

17. eich canllawiau a'ch gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer paratoi a chymeradwyo cyllidebau, monitro ac adrodd ar berfformiad yn erbyn cyllidebau, a diwygio cyllidebau

18. y cyllidebau y cytunwyd arnynt ym maes eich cyfrifoldeb, sut gellir eu defnyddio, faint y gallwch eu newid o fewn terfynau eich awdurdod, a sut i gael cytundeb ar gyfer newidiadau y tu hwnt i'ch terfynau

19. pwy sydd angen gwybodaeth am berfformiad yn erbyn eich cyllideb yn eich sefydliad, pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt, pryd mae ei hangen arnynt ac ym mha fformat

20. beth i'w wneud os ydych yn amau bod twyll ariannol wedi'i gyflawni, a gyda phwy i gysylltu

## Sgiliau

1. Gweithredu'n bendant
2. Cyfathrebu
3. Ymgynghori
4. Trefniadau wrth gefn
5. Gwneud penderfyniadau
6. Gwerthuso
7. Rheoli gwybodaeth
8. Dysgu
9. Monitro
10. Cyd-drafod
11. Cyflwyno gwybodaeth
12. Datrys problemau
13. Adrodd

---

<b>Datblygwyd gan</b>	Skills CFA
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	12 Chwef 2021
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	01 Maw 2026
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	Instructus
<b>RCU gwreiddiol</b>	CFAM&LEA4
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Rheolwyr ac Uwch Swyddogion
<b>Cyfres/Set</b>	Rheoli ac Arwain
<b>Geiriau Allweddol</b>	Rheoli ac arwain; rheoli cyllidebau

---